# Polisi Cadw Hawliau

Fersiwn 1.0

| | |
|---|---|
| **Teitl y Polisi** | Polisi Cadw Hawliau |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | 2022-06-24 |
| **Corff Cymeradwyo** | Y Pwyllgor Ymchwil |
| **Fersiwn** | 1.0 |
| **Disodli** | 0.2 |
| **Dyddiad yr adolygiad blaenorol** | 2022-06-24 |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | Yr Haf 2023 |
| **Perchennog y polisi** | Dirprwy Is-Ganghellor - Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi |
| **Prif gyswllt** | Gweithgor Mynediad Agored |

# Beth yw Cadw Hawliau?

Mae cadw hawliau'n fenter gan y noddwr cOAlition S.

Mae gan lawer o noddwyr bolisïau sy'n cydymffurfio â Plan S, gan gynnwys UKRI (Ebrill 2022), Wellcome Trust (Ionawr 2021), NIHR (Mehefin 2022), a'r Bill & Melinda Gates Foundation (Ionawr 2021), sy'n cynnwys amod sy'n gofyn am gadw hawliau.

Mae cadw hawliau'n cefnogi'r llwybr gwyrdd, neu'r llwybr hunan-archifo i fynediad agored. Mae e'n galluogi ymchwilwyr i gyhoeddi Fersiwn Terfynol gyda chyhoeddwr yn ogystal â rhoi llawysgrif awdur wedi'i derbyn ar gadw mewn cadwrfa, sy'n sicrhau'r mynediad ehangaf posibl i ymchwil a hefyd sy'n cyflawni gofynion noddwyr.

# Beth mae ar ymchwilwyr angen ei wneud?

Fel arfer mae'r "llwybrau" canlynol ar gael gan noddwyr i gyhoeddi drwy Fynediad Agored:

1. Mynediad Agored Aur
    a. Cyhoeddi mewn cyfnodolyn mynediad agored llawn a thalu Ffi Prosesu Erthygl (APC) i roi mynediad agored ar unwaith i'r fersiwn terfynol.
    b. Cyhoeddi mewn cyfnodolyn sy'n darparu mynediad agored aur drwy Gytundeb Trawsffurfiol. Telir costau cyhoeddi ar y cychwyn fel rhan o'r fargen hon. Ni thelir unrhyw APC unigol.
2. Mynediad Agored Gwyrdd
    a. Cyhoeddi mewn cyfnodolyn tanysgrifio/cymysgryw ac arfer polisi cadw hawliau i osod trwydded CC BY ar eich llawysgrif sy wedi'i derbyn, a'i rhoi ar gadw yn PURE. Efallai bod eich noddwr yn gofyn ichi roi eich ymchwil ar gadw mewn cadwrfa ychwanegol, e.e. mae'r Wellcome Trust yn gofyn ichi ddefnyddio EuropePMC. Ni thelir unrhyw APC unigol.

Fel y cewch chi ddefnyddio'r llwybr Gwyrdd, sef y llwybr cadw hawliau, mae'n hollbwysig **datgan ar y llawysgrif wedi'i chyflwyno** bod trwydded CC BY yn cael ei gosod ar y fersiwn wedi'i dderbyn (AAM/ ôl-gyhoeddiad). Drwy'r datganiad hwn mae "hawliau" yn cael eu "cadw" er mwyn gosod trwydded CC BY ar yr AAM; mae cynnwys y datganiad hwn o fewn y llawysgrif wedi'i chyflwyno ac yn y llythyr eglurhaol i'w chyflwyno yn ei gwneud yn glir ar adeg y cyflwyno pa drwydded rydych chi'n ei gosod ar eich llawsgrif awdur wedi'i derbyn.

Os nad oes trwydded CC BY yn ei lle ar gyfer yr AAM, yna ni fydd y papur ddim yn cydymffurfio â pholisi'r noddwr. Mae angen y datganiad am y bwriad i osod trwydded CC BY ar yr AAM, felly, ar **bob** llawysgrif wedi'i chyflwyno, a dylai fe hefyd gael ei gynnwys yn y llythyr eglurhaol er mwyn eglurdeb. Dyma ffurf enghreifftiol isod ar gyfer y datganiad:

**Noddwyd yr ymchwil yma yn llwyr neu'n rhannol gan [NODDWR] [RHIF Y GRANT]. Ar gyfer pwrpas Mynediad Agored, mae'r awdur wedi gosod trwydded Priodoli Creative Commons (CC BY) i unrhyw Lawysgrif Awdur Wedi'i Derbyn (AAM) sy'n deillio o'r cyflwyniad hwn.**

Unwaith bod y papur wedi'i dderbyn i'w gyhoeddi, bydd angen i'r awdur roi'r llawysgrif wedi'i derbyn ar gadw yn PURE ac mewn unrhyw gadwrfeydd eraill yn unol â gofynion y noddwr. Rhaid gwneud yn siŵr ei bod ar gael ar lein, dan y drwydded benodedig, mewn pryd ar gyfer ei chyhoeddi.

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â pholisïau prifysgol eraill a wnelo ag Ymchwil Agored:

- Polisi Mynediad Agored a Chyflwyno i PURE
- Polisi Rheoli Data Ymchwil
- Datganiad Prifysgol Aberystwyth ar ddefnyddio metrigau ymchwil mewn

I gael gwybodaeth bellach, gweler tudalennau gwe Mynediad Agored Aberystwyth, neu cysyllwch â mynediadagored@aber.ac.uk